

## **Adroddiad Ôl-Ymgynghori**

### **Pen-y-lan Road/Colchester Avenue – Gosod Cyfnod Croesi i Gerddwyr ar Gyffordd â Signalau**

**Rhif project: CO19049**

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer y cynllun uchod rhwng 13 Rhagfyr 2019 a 3 Ionawr 2020, er y cafodd unrhyw ohebiaeth a dderbyniwyd yn fuan ar ôl y dyddiad cau hefyd wedi'i chynnwys. Diben yr ymgynghoriad oedd casglu gwybodaeth gan y gymuned leol er mwyn gwella'r cynllun a mynd i'r afael â phryderon lleol pan fo modd.

O'r tua 100 o eiddo yr ymgynghorwyd â nhw, a'r 4 hysbysiad safle a roddwyd ar y safle ei hun, cafwyd 11 ymateb unigol, a cheir crynodeb ohonynt isod fel a ganlyn:

- 1 yn gwrthwynebu'r cynnig
- 10 yn cefnogi'r cynnig

Mae'r pryderon a'r sylwadau wedi eu crynhoi isod mewn ysgriflen italig, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

## **Argymhelliad**

Oherwydd yr isod, cynigir **bwrw ymlaen** â'r cynnig cyhyd â bod cyllid ar gael.

Bydd y cynllun yn gosod croesfan i gerddwyr gyda signalau ar y gyffordd nad yw'r groesfan ar gael ar hyn o bryd. Bydd y cynnig yn darparu cyfleusterau croesfan i gerddwyr a fydd yn gwella diogelwch ffyrdd yn yr ardal i bawb sy'n defnyddio ffyrdd.

## **Gweler isod y sylwadau a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori sydd yn erbyn y cynnig:**

**Mater: Bydd gosod croesfan i gerddwyr yn cael effaith negyddol ar ddiogelwch ar y ffyrdd**

- Mae gwelededd yn wael ar gyfer y groesfan arfaethedig i gerddwyr ar Colchester Avenue. Mae'r preswlydd yn pryderu na fydd cerddwyr sy'n croesi'r ffordd yn gallu gweld cerbydau (ac i'r gwrthwyneb) sy'n troi i'r chwith i Colchester Avenue o Pen-y-lan Road.
- Mae Gorsaf Dân ar Colchester Avenue. Bydd injans tân sy'n teithio i argyfwng, ac sydd angen troi i'r chwith i Pen-y-lan Road yn defnyddio'u seiren i ddod drwy'r gyffordd hon ar goch.

*Cytunir bod gwelededd ar gyfer cerddwyr sy'n croesi yn cael ei gyfyngu gan y wal ffiniol gyfagos. Bydd y groesfan arfaethedig yn cael ei lleoli'n agos at Pen-y-lan*

*Road a bydd y droetffordd yn cael ei lledu er mwyn sicrhau'r gwelededd gorau posibl i gerddwyr a gyrwyr.*

*Mae'r dyn gwyrdd i gerddwyr yn 'wahoddiad i groesi', mae dal angen i gerddwyr sicrhau bod y ffordd yn ddiogel i'w chroesi. Bydd y troad siarp i'r chwith yn lleihau cyflymderau cerbydau ac yn cynyddu amser adweithio i yrwyr a cherddwyr pe bai gwrthdaro.*

- Mae gwelededd yn wael ar gyfer y groesfan arfaethedig i gerddwyr ar Pen-y-lan Road, i'r de o'r gyffordd. Mae'r gwrthwynebwr yn pryderu na fydd cerddwyr sy'n croesi'r ffordd yn gallu gweld cerbydau (ac i'r gwrthwyneb) sy'n troi i'r chwith i Pen-y-lan Road o Colchester Avenue.

*Mae'r dyluniad cysyniadol yn dangos y bydd y droetffordd yn cael ei lledu, a'r groesfan i gerddwyr yn cael ei lleoli er mwyn sicrhau ei bod yn gallu cael ei gweld yn amlwg o'r llinell stopio i gerbydau ar Colchester Avenue. Bydd y llinell cwrbyn yn cael ei ehangu, bydd hyn yn lleihau cyflymderau cerbydau ac yn cynyddu amser adweithio i yrwyr a cherddwyr pe bai unrhyw wrthdaro.*

- "Mae safle bysus poblogaidd ar y bloc hwn, y tu allan i rif 115, sy'n gwasanaethu tri llwybr. Ar rai adegau o'r dydd, yn enwedig ar ddiwedd y diwrnod ysgol pan fo myfyrwyr Coleg Dewi Sant ar Tŷ Gwyn Rd yn ymadael gall cymaint â thri neu hyd yn oed bedwar bus fod wrth y safle bus hwn. Nid yw'n anghyffredin iddynt flocio'r gyffordd, a fyddai'n golygu bod bysus yn cael eu dal ar y groesfan hon i gerddwyr, a bod pobl ifanc yn ceisio croesi'r ffordd o amgylch bus deulawr sydd wedi stopio. Mae gwelededd pawb o bopeth yn cael ei rwystro ar adegau fel hyn. Os yw'r goleuadau cerddwyr yn dangos gwyrdd efallai y bydd y bobl ifanc yn teimlo bod ganddynt hawl i groesi, ond ni fydd YN DDIOGEL iddynt groesi."

*Mae Rheol 191 Rheolau'r Ffordd Fawr yn nodi NA DDYLECH barcio ar groesfan i gerddwyr. Ymgynghorwyd â darparwyr gwasanaethau bysus ynglŷn â'r cynigion hyn, ac nid ydynt wedi codi unrhyw bryderon ynghylch y cynllun newydd yn effeithio ar y ffordd y mae eu gwasanaethau yn cael eu gweithredu.*

#### Materion – Newid lonydd

- Mater gyda gyrwyr sy'n teithio tua'r de ar Pen-y-lan Road, gan newid lonydd ac achosi damwain bosibl.

*Mae'n bosibl y gallai hyn ddigwydd o dan y cynllun ffordd presennol, ac nid ydym yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau i gynllun y lonydd. Rydym wedi adolygu cronfa ddata'r heddlu o wrthdrawiadau sy'n achosi anafiadau a gallwn gadarnhau na chofnodwyd unrhyw wrthdrawiadau a achosodd anafiadau yn ystod y pum mlynedd diwethaf*

#### Mater – cyflymder cerbydau

- Cerbydau'n goryrru ar Pen-y-lan Road / Colchester Avenue.

*Cyn bo hir, bydd y Cyngor yn ymgynghori ar ymestyn y cynllun 20mya yn ardal Pen-*

*y-lan fel rhan o'r broses o newid cyfyngiadau cyflymder. Bydd gweithredu cyfyngiad cyflymder o 20mya yn helpu i greu amgylchedd priffordd mwy diogel.*

#### Mater – Lleoliad / cyfnod signalau

- Cadwch y saeth troi i'r dde o Pen-y-lan a'r saeth troi i'r chwith o Colchester Rd a chyflwyno cam croesi i gerddwyr lle bydd pob signal yn goch

*Mae'r materion hyn wedi cael eu modelu ar feddalwedd gyfrifiadurol wrth ddatblygu'r cynllun. Rhagwelir y bydd y groesfan i gerddwyr yn gweithredu dan gyfnod 'pob signal yn goch' a chedwir y saethau troi i'r chwith a throi i'r dde.*

#### Mater – parcio ceir

- Mae ceir yn cael eu parcio wrth gyffordd Boleyn Walk / Pen-y-lan Road ac yn rhwystro gwelededd

*Mae'n anffodus bod hyn yn codi, ond yn anffodus, nid oes cyllid ar gael ar hyn o bryd ar gyfer Gorchymyn Rheoli Traffig yn y lleoliad hwn fel rhan o'r cynllun hwn. Mae'r pryderon hyn wedi'u hanfon ymlaen at y tîm Gorchymyn Rheoli Traffig i'w hadolygu yn y dyfodol yn yr ardal hon.*

#### **Gweler isod y sylwadau a ddaeth i law yn ystod y cyfnod ymgynghori sy'n cefnogi'r cynnig:**

"Hoffwn gefnogi'r cynigion."

"Mae'r cynllun cyfleusterau croesfan i gerddwyr ar Colchester Ave /Penylan Hill yn hir-ddisgwyliedig ac felly'n cael ei groesawu'n fawr."

"Rwy'n falch iawn o ddarllen am y cynigion newydd ar gyfer Penylan Road a Colchester Avenue yr wyf i ac eraill wedi bod yn brwydro amdanynt."

"Rwy'n croesawu ac yn cefnogi'r croesfannau i gerddwyr a gynigir yn Penylan Road / Colchester Avenue."


"Rwy'n croesawu'r newidiadau a gynigir i'r briffordd wrth gyffordd Colchester Avenue a Pen-y-lan Road."

"Rwy'n ysgrifennu i gefnogi'r cynllun ardderchog i gyflwyno cyfleusterau croesfan i gerddwyr ar gyffordd Pen-y-lan Road / Colchester Avenue."

"Fel trigolion Colchester Avenue rydym yn cefnogi'r cynnig."

"Fel un sy'n defnyddio'r llwybr hwn sawl gwaith y dydd, mae'r cyfleusterau croesfan i gerddwyr ar gyffordd Pen-y-lan Rd / Colchester Ave yn syniad gwych."

Yn dilyn ymgynghoriadau diweddar ar gynnig rheoli traffig, mae'r Cyngor yn paratoui weithredu'r cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun. Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn [www.caerdydd.gov.uk/transportprojects](http://www.caerdydd.gov.uk/transportprojects) ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'.



Following the recent consultation on a traffic management proposal, the Council is preparing to implement the scheme based on the plan shown. Further details about this consultation are available at [Cardiff.gov.uk/TransportProjects](http://Cardiff.gov.uk/TransportProjects) using the 'view consultations' link.

